

Nid ydym yn derbyn y pwynt. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, “without delay, speedy, immediate” yw ystyron “di-oed”. Mae Geiriadur yr Academi yn rhestru’r canlynol fel ffyrdd o gyfleu “without delay” yn Gymraeg: “yn ddi-oed, ar unwaith, yn syth, yn y fan, heb oedi, heb ymdroi”. Mae’r ymadroddion “yn ddi-oed” a “heb oedi” yn gyfystyr â’i gilydd felly, ac fe ellir cyfnewid y naill am y llall. Nid ydym yn gyfarwydd â defnyddio “di-oed” i gyfleu “at pace”.

We do not accept the point. According to Geiriadur Prifysgol Cymru the meaning of “di-oed” is “without delay, speedy, immediate”. Geiriadur yr Academi lists the following ways to express “without delay” in Welsh: “yn ddi-oed, ar unwaith, yn syth, yn y fan, heb oedi, heb ymdroi”. The phrases “yn ddi-oed” and “heb oedi” are therefore synonymous and interchangeable. We are not familiar with using “di-oed” to convey “at pace”.